

Digimap for Schools

Goleudy ar Werth!

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Goleudy ar werth!

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Goleudai a'r arfordir	Morliniau o gwmpas Prydain Fawr

Gwybodaeth	Dehongli symbolau yr Arolwg Ordnans a nodweddion mapiau. Anodi mapiau. Mesur ac amlygu ardaloedd ar fapiau. Ychwanegu labeli.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Enwi a lleoli rhanbarthau daeryddol y DU a'u nodweddion dynol a daeryddol adnabod, nodweddion topograffeg allweddol (gan gynnwys brynau, mynyddoedd, arfordiroedd ac afonydd), a phatrymau defnydd tir; a deall sut mae rhai o'r agweddau hyn wedi newid dros amser. Defnyddio mapio digidol/cyfrifiadurol i ddisgrifio'r nodweddion a astudiwyd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Amlygu a dod o hyd i leoedd; defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i chyflwyno. Disgrifio achosion a chanlyniadau sut mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd 2-13a, 2-09a, 2-14a, 2-10a.

Gweithgaredd

Mae'n rhaid i ddisgyblion weithredu fel gwerthwyr tai a chreu broliant gwerthu gyda mapiau ar gyfer goleudy Muckle Flugga. Awgrymir gweithgareddau dilynol gyda chysylltiadau â Saesneg a Hanes.

Cyflwyniad

Mae goleudy yn strwythur, tŵr yn aml, sy'n allyrru golau o system o oleuadau i gynorthwyo'r rheiny sy'n teithio ar y môr neu ddyfrffyrdd mewndir i lywio. Mae goleudai yn ateb nifer o ddibenion: maent yn amlygu morliniau peryglus; yn rhybuddio ynghylch riffiau neu fasleoedd peryglus; dangos ble mae mynedfeydd diogel i borthladdoedd a helpu gyda llywio awyrol hefyd. Trawsnewidiwyd goleudy â chriw olaf y DU i weithredu'n awtomataidd ym mis Tachwedd 1998.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adeiladwyd goleudy Muckle Flugga ar graig fwyaf gogleddol Ynysoedd Prydain: mae stac creigiog Muckle Flugga, i'r gogledd o Ynys Unst yn Ynysoedd Shetland, yr Alban. Daeth yn awtomataidd ym mis Mawrth 1995. Yn y gorffennol, roedd ceidwaid y goleudy yn gorfod cyflawni taith beryglus i gyrraedd yno.

Roedd ceidwaid y goleudy yn cael eu rhyddhau gan hofrennydd a oedd yn teithio i'r goleudy bob pythefnos. Roedd dŵr ffres ac unrhyw ddeunydd trwm yn cael eu glanio ar y graig gan wasanaeth hofrennydd; roeddent yn hwyr iawn yn cael eu rhyddhau weithiau, oherwydd moroedd garw a oedd yn ei gwneud hi'n amhosibl i gwch lanio. Gellid dweud mai dyfodiad yr hofrennydd oedd breuddwyd ceidwaid goleudai.

Ymwelodd yr awdur, Robert Louis Stevenson, â Muckle Flugga ar 18 Mehefin 1869 gyda'i dad, Thomas Stevenson, Peiriannydd i'r Bwrdd. Mae rhai pobl o'r farn mai Ynys Unst oedd ei ysbrydoliaeth ar gyfer *Treasure Island*. Mae symbolau'r Arolwg Ordnans yn dangos goleufâu yn ogystal â goleudai sy'n gweithio a rhai sydd ddim yn gweithio o gwmpas arfordir Prydain ar raddfeydd 1:50 000 ac 1:25 000, a gellir defnyddio mapiau graddfa fawr i ymchwilio i leoliadau goleudai.

Prif Weithgaredd

Mae Muckle Flugga ar werth ac mae angen i'r disgyblion geisio ei werthu! Mae angen iddyn nhw greu trosolwg un dudalen o'i bwyntiau gwerthu a chynllunio beth y gallan nhw ei roi ar dudalen we. Mae angen i'r disgyblion greu map sy'n dangos ei leoliad ar fap graddfa fawr ac un yn dangos ei leoliad yn ym Mhrydain Fawr.

Gofynnwch i ddisgyblion greu'r mapiau yn gyntaf ac yna'r broliant. Darperir enghraifft o froliant er mwyn i ddisgyblion allu ei ddefnyddio i'w helpu i greu un eu hunain ar gyfer Muckle Flugga.

Mynd gam ymhellach

- Dewiswch oleudy gyda mynediad cyhoeddus da a dychmygwch y bydd yn ganolfan i ymwelwyr newydd. Lluniwch hysbyseb ar ei chyfer.
- Dewch o hyd i'r pum goleudy agosaf at Muckle Flugga a mesurwch y pellteroedd rhyngddynt.
- Mae rhai goleudai ar y tir ac mae rhai yn y môr neu ar ynysoedd bach. Allwch chi ddarganfod pa oleudy ym Mhrydain Fawr sydd bellaf oddi wrth y tir mawr? Beth yw enw'r goleudy arunig hwn?
- Dychmygwch eich bod chi yn Muckle Flugga ac yn derbyn galwad yn gofyn i chi fynd i Trinity House yn Llundain (TQ 334 808) ar frys. Pa mor hir ydych chi'n meddwl y bydd hi'n ei gymryd i deithio yno? Bydd angen i chi gymharu pa mor hir y byddai'n cymryd i rywun o Trinity House i gyrraedd Efrog Newydd neu Sydney Australia.
- Rydych chi eisiau gosod dodrefn newydd yn eich gwesty. Pa ddinasoedd fydddech chi'n ystyried ymweld â nhw i chwilio am ddodrefn a pham? Ystyriwch y teithio a sut bydd y dodrefn yn cael eu dosbarthu i'r gwesty (cliw: efallai na fyddan nhw i gyd ym Mhrydain Fawr).
- Cysylltwch â Hanes ac ymchwiliwch i sut beth oedd byw a gweithio fel ceidwad goleudy cyn iddynt fod yn awtomataidd.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Dolenni ar y we

Goleudy Corsewall <http://www.visitscotland.com/info/accommodation/corsewall-lighthouse-hotel-p204531>

Nodweddion Dŵr: delweddau a symbolau'r Arolwg Ordnans <http://www.geograph.org.uk/article/OS-Symbols---Water-features>

Map o oleudai yng Nghymru a Lloegr http://www.photographers-resource.co.uk/A_heritage/Lighthouses/Maps/Lighthouse_map_EW.htm

Map o oleudai yn yr Alban http://www.photographers-resource.co.uk/A_heritage/Lighthouses/Maps/Lighthouse_map_SCT.htm

Adnodd oriel Geograph: goleudai http://www.geograph.org.uk/gallery/lighthouses_8677

Delwedd o riff Muckle Flugga gan Mike Pennington <http://www.geograph.org.uk/photo/624640>

Muckle Flugga, Shetland; delwedd gan John Dally <http://www.geograph.org.uk/photo/116630>

Muckle Flugga a'i oleudy, y mwyaf gogleddol yn Ynysoedd Prydain, fel y'i gwelir o Hermaness, Ynys Unst. Delwedd gan John Dally <http://www.geograph.org.uk/photo/116630>

Hanes Goleudy Muckle Flugga <http://www.nlb.org.uk/ourlights/history/muckle.htm>

Trinity House <http://www.trinityhouse.co.uk/>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Dalen Gymorth: *enghraifft o 'eiddo ar werth'*

Goleudy ar werth

Pris: cynigion sy'n fwy nag £1.25 miliwn.

Lleoliad a chyrraedd yno: mae'r gwesty wedi'i leoli 15 munud o dref Stranraer. Ewch ar yr A718 at Kirkcolm ac wedi hynny, ar y B738 i Corsewall a'r goleudy.

Golygfeydd

Mae'r lleoliad syfrdanol – golygfeydd o Arran, Ailsa Craig a drosodd i arfordir Iwerddon – wedi gwneud y gwesty yn un o'r rhai fwyaf anarferol ym Mhrydain, gyda rhagolygon gwirioneddol fel busnes hyfyw.

Yr eiddo

Nid yw moethus yn air y byddech yn ei gysylltu â goleudai fel arfer, ond mae Corsewall yn Kirkcolm, yn cyfuno golygfeydd ysblennydd gyda gwesty pedair seren. Cafodd ei oleuo am y tro cyntaf dros 185 o flynyddoedd yn ôl fel rhybudd i longau a oedd yn agosáu at aber Loch Ryan. Mae goleudy Corsewall yn dal i berfformio'r un swyddogaeth, yn taflu goleufa pwerus i awyr y nos o'i leoliad creigiog ar ymyl arfordir gorllewinol yr Alban. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'r goleudy yn fwyaf enwog am ei westy sydd wedi ennill gwobrau.

Bydd y perchennog ffodus yn cael chwe ystafell wely arddull unigol, gyda nodweddion unigryw a bwyty hardd i 28 o bobl. O fewn y tiroedd 20 erw, mae pum adeilad tebyg i fythynnod sydd newydd gael eu hadnewyddu – pedwar bwthyn dwy ystafell wely ac un bwthyn un ystafell wely – y gellir eu gosod ar sail hunanarlwyo.

Cyfle

Dyweddodd arbenigwr gwestai Knight Frank: 'Mae Gwesty Goleudy Corsewall yn gyfle gwych a ddylai apelio'n hawdd at brynwyr o'r Alban, Lloegr ac Iwerddon. Bydd yn ddeniadol i brynwyr sy'n buddsoddi a allai edrych ar yr eiddo gyda'r bwriad o ddatblygu'r tiroedd ymhellach.'

Manylion wedi'i haddasu o hysbyseb am eiddo gwreiddiol gan Werthwyr Tai Knight Frank. Roedd y pris yn gywir yn 2012.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Tasg: Defnyddiwch yr enghraifft a ddarparwyd i'ch helpu chi i lunio eich hysbyseb eich hun ar gyfer goleudy Muckle Flugga

- 1 Penderfynwch faint y gallai'r goleudy fod werth. Efallai y byddwch eisiau adolygu hwn ar ôl i chi orffen disgrifio'r eiddo a'r cyfleoedd.
- 2 Disgrifiwch leoliad Muckle Flugga a sut mae cyrraedd yno. Crëwch fap i ddangos y goleudy wedi'i amlygu a'i labeli'n glir. Anodwch y map gyda chyfeirnodau grid.

Chwiliwch *Digimap for Schools* gan ddefnyddio'r term 'Unst' a dewch o hyd i Muckle Flugga.

Dewch o hyd i symbol yr Arolwg Ordnans ar gyfer '*lighthouse in use*' (goleudy mewn defnydd) ar Muckle Flugga. Cliciwch ar '*Grid reference tool*' (offeryn cyfeirio grid) ar y bar offer a chliciwch ar y goleudy. Bydd cyfeirnod grid yn ymddangos ar y pwynt y byddwch yn clicio arno. Amlygwch a chopiwch, yna agorwch y bar offer anodi a dewiswch '*Place label*' (gosod label), a dewis maint testun, er enghraifft, Arial 20. Cliciwch nesaf at Muckle Flugga a phan mae'r blwch testun yn ymddangos, pastiwch y cyfeirnod grid yn y blwch a dewis '*save*' (cadw).



Mesurwch arwynebedd Muckle Flugga. Dewiswch '*Measuring tool*' (offeryn mesur) ar y bar offer a dewiswch '*Area*' (arwynebedd). Daliwch y botwm *Shift* i lawr a chliciwch a llusgwch yn offeryn mesur o gwmpas ymyl Muckle Flugga. Bydd yn dangos yr arwynebedd mewn metrau sgwâr. Pan fyddwch wedi gwneud hyn, copi'wch a phastiwch hwn i'ch dogfen waith, a'i dalgrynnu i'r metr sgwâr agosaf. Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer eich cyflwyniad gwerthu.

Amlygwch arwynebedd craig Muckle Flugga. Agorwch y bar offer anodi a dewiswch '*Draw Area*' (tynnu llun ardal), yna '*Draw a freeform shape*' (tynnu llun siâp ffurfrydd). Defnyddiwch eich llygoden i lusgo'r offeryn hwn o gwmpas morlin Muckle Flugga a chliciwch ddwywaith i orffen. Cyn i chi wneud hyn, gwnewch yn siwr bod lefel tryloywder y bar offer wedi'i osod ar 50% a dewiswch y lliw amlygu rydych yn dymuno ei ddefnyddio.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Cloiwch a llaciwch o'r map a phenderfynwch pa raddfa sydd orau o ran dangos ardal Muckle Flugga a'i oleudy. Pan fyddwch yn hapus gyda'r map, rhowch deitl iddo a dewiswch opsiynau argraffu. Ewch i '*Print your map as*' (argraffwch eich map fel) yn y blwch deialog argraffu a dewiswch 'jpeg'. Yna dewiswch '*Make printable map*' (gwneud map argraffadwy). Byddwch yn cael eich annog o agor y map. Gwnewch hyn i wirio eich bod chi'n hapus gydag ef, yna dewiswch 'save as' (cadw fel), rhowch enw i'r ddelwedd jpeg a chadwch y llun ar eich cyfrifiadur.

- 3 Gwnewch fap arall i ddangos lleoliad y goleudy mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Yn gyntaf, rhowch farciwr ar leoliad y goleudy. Pan fyddwch yn llacio i fap graddfa lai, bydd symbol y goleudy a manylion yr ynysoedd yn cael eu colli, felly mae angen i chi gael marciwr i ddangos ble mae'r goleudy. Agorwch y bar offer anodi a chliciwch ar '*Add Marker*' (ychwanegu marciwr) yna cliciwch ar symbol y goleudy. Caewch y bar offer anodi.

Llaciwch hyd nes eich bod chi'n hapus eich bod chi'n gallu gweld lleoliad y goleudy a'r rhan fwyaf o Brydain Fawr. Efallai y bydd angen i chi symud eich label cyfeirnod grid os nad yw wedi'i osod yn glir neu ei fod yn gorgyffwrdd y marciwr rydych wedi'i ychwanegu. Agorwch y bar offer anodi, dewiswch yr offeryn '*Move Feature*' (symud nodwedd) a chliciwch ar y label i'w symud. Peidiwch â symud eich marciwr gan ei fod yn dangos yn union ble mae'r goleudy.



Os oes gennych amser, gallech ychwanegu labeli i ddangos Cymru, Lloegr a'r Alban, Môr y Gogledd ac unrhyw wybodaeth arall rydych eisiau ei hychwanegu. Dewiswch '*Place Label*' (gosod label) ar y bar offer anodi a maint y testun rydych ei eisiau, yna cliciwch i'w ychwanegu ar y map. Os byddwch yn gwneud camgymeriad, defnyddiwch y nodwedd '*delete*' (dileu) yn adran '*Modify*' (addasu) y bar offer. Cadwch y map ar ffurf delwedd jpeg.

- 4 Defnyddiwch eich mapiau i'ch helpu i ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at eich hysbyseb, fel pa fath o olygfeydd y gallech eu gweld. Rhowch eich delweddau jpeg o'ch mapiau yn eich dogfen. Gallech ymchwilio ar y rhyngwyd i ddod o hyd i rai delweddau o'r goleudy neu'r ardal o'i gwmpas. Cadwch nhw ar ffurf jpeg a'u hychwanegu at y map.



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Goleudy ar werth

Enw _____

Enw'r Goleudy _____

Cynigion oddeutu £ _____

Cyfeirnod grid

Lleoliad a chyrraedd yno

Mapiau

Golygfeydd

Yr eiddo

Cyfleoedd

Enw'r Gwerthwr Tai Cyswllt: